# Y Wennol

Straeon gan ddysgwyr i bawb eu darllen

e-bost: rob@wennol.cymru

Cyfrol 7 Rhif 6 Yn rhad ac am ddim Medi 2026



Trilliw Bach Small Tortoiseshell

Un o'r pethau oedd yn bwysig i mi pan o'n i'n ailwampio'r ardd ffrynt oedd cael planhigion oedd yn denu peilliwr. Prynais ugain o blanhigion lafant am bunt, ia, dyna oedd Thompson & Morgan yn cynnig ac o'n i'n hapus iawn i'w derbyn. Plygs ydyn nhw ac yn fychan iawn, bron nad ydych yn eu gweld nhw pan maen nhw yn y pridd ond erbyn hyn maen nhw wedi tyfu yn fawr ac mewn blodau.

Os denu peilliwr dach chi eisiau mae rhaid i chi gynnwys buddleia ac roedd ganddyn nhw rhai na fydd yn tyfu yn rhy fawr. Prynais dri ac mi wnaeth un wneud yn dda o'r dechrau ond roedd hi'n wyntog iawn dros y gaeaf a'r gwanwyn a doedd o ddim yn gallu ymdopi, tynnais o allan a'i ail blannu mewn lle mwy cysgodol yn y gobaith byddai'n gallu ei gryfhau. Cymerodd hyn lawer o amser ac roeddwn i wir yn credu nad oedd gobaith ond, un diwrnod sylweddolais fod dipyn o wyrddni i'w weld. Byddai'n ei adael dros y gaeaf nesaf ac ail blannu yn y gwanwyn.

Mae un o'r ddau eraill yn gyndyn i symud ymlaen ond yn dal yna ond beth am y trydydd? Wel, mae'r trydydd yn gwneud yn arbennig o dda ac yn dweud 'how dŵ iŵ dŵ?' i niferoedd o wenyn bob diwrnod. Ond yn ogystal â hynny, pob hyn a hyn mae gloÿnnod byw yn cyrraedd i gael ffîd. Byddaf yn ôl i siarad am y peilliwr nes ymlaen ond cyn hynny gadewch i mi ddweud wrthoch chi am beth oeddwn i'n hoff o wneud cyn Cofid. Y peth ofnadwy yna sydd wedi newid ein ffordd o fyw.

Roeddwn i'n hoffi mynd allan yn y wlad efo fy nghamera yn tynnu lluniau o'r wlad hyfryd dyn ni'n lwcus iawn i fyw ynddi. Blynyddoedd yngynt

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

roeddwn i'n mynd ar gyrsiau i'r Alban ac Ardal y Llynnoedd ac yn cael gwir fwynhad. Ond mae'r siwrne i ogledd yr Alban yn hir, roeddwn i'n gadael Abertawe am dri yn y bore er mwyn cyrraedd yr M6 cyn i'r drafnidiaeth mawr ddechrau. Roedd hyn yn golygu y byddaf yn cyrraedd tua chanol y pnawn, hyn i gyd tua phedair gwaith y flwyddyn. Achos roeddwn i'n gallu gadael mor gynnar roedd pethau'n eithaf hawdd ond gwahanol iawn oedd y siwrne adref. Er mwyn cwrteisi roedd rhaid cael brecwast efo'r lleill ac wedyn aros tan oedd pawb yn barod i fynd er mwyn dweud ein ffarwels. Siwrne hir a blinedig wedyn!

Wrth gwrs roeddwn i'n mynd adref efo lluniau ardderchog ond ar ôl sbel sylweddolais fy mod i wedi gweld yr un lluniau o'r blaen. Mae gymaint o bobl yn heidio i'r un llefydd yn yr Alban neu Ardal y Llynnoedd. Dechreuais feddwl byddai'n well i gadw fy hun yng Nghymru ac, o hynny ymlaen, treuliais lawer o fy amser yn crwydro trwy Gymru. Am un peth, ces i luniau gwahanol a dysgu mwy am fy ngwlad.

A dyma Cofid yn cyrraedd ac ar yr un pryd roedd pawb yn siarad am gamerâu 'mirrorless' a pha mor dda mae'r lluniau dach chi'n gallu cael. Fel un sydd wrth ei fodd yn trio 'gadgets' newydd roeddwn i'n 'hooked'. Ia, mae'r lluniau yn dda ond ar ôl dipyn o amser dach chi'n dechrau gofyn "Pwy sydd wedi tynnu'r llun hyfryd yna?" yr ateb yw - y camera. Roeddwn i wedi dysgu sgiliau a rŵan doedd gen i ddim angen nhw.

Wel mae hynny wedi newid diolch i'r glöynod byw. Un bore roeddwn i'n edrych allan ar yr ardd a gwelais i glöyn yn mwynhau'r haul ar y buddleia ac es i allan efo'r hen gamera a'r lens hir a threuliais i tua thri chwarter awr yn cael gwir fwynhad. Dyma luniau roeddwn i wedi tynnu, nid y camera!

A'r cwestiwn mawr yw - a yw pethau yn mynd ymlaen yn rhy bell ac yn rhy gyflym? Maen nhw'n dweud wrthon ni byddai technoleg yn gallu gwneud popeth i ni ond ydy hynny yn beth da? Mae gan bob person ei ddawn ac mae'r ddawn yna yn bwysig, mae'n ein diffinio ni.

Dw i'n falch mod i wedi dechrau defnyddio fy hen gamera eto achos dyna oedd un o fy noniau a dw i eisiau treulio gweddill fy mywyd yn cael y pleser o ddefnyddio'r doniau yna.

Ac esgusodwch fi rŵan ond dw i'n gorfod diflannu i ddefnyddio fy noniau coginio, dw i bron â llwgu!

Gyda llaw, mae tri glöyn yn mynychu'r buddleia, Y Mantell Dramor (Painted Lady), Y Trilliw Bach (Small Tortoiseshell) a'r Gwyn Bach (Small White). Dydy'r Gwyn Bach ddim yn gallu setlo ac yn fflitio'n gyflym o le i le.

Mae pedwar Gwyn Bach o gwmpas y buddleia yn ddiweddar, dau yn brysur yn bwydo ar y nectar a'r ddau arall yn edrych fel bod nhw'n flin efo'i gilydd. Rhag ei cywilydd yn ffraeo yn fy ngardd! Ond y pnawn yma welais i un ohonyn nhw yn gorwedd ar y patio, ei adennydd ar agor ac yn edrych fel nad oedd bywydd ynddo, druan ynte, ond wedyn roedd yr un arall yna ac yn trio cael o i fyny i'r awyr a, wyddoch chi be? Wnaeth o godi i'r awyr a dawnsio o fy mlaen i, wedyn y ddau yn dod at ei gilydd ac yn dawnsio, wel, tybed oes ramant yna?


Mantell Parn (Peacock)
Dw i'n meddwl

Wel oes wrth gwrs ond byddech chi'n meddwl bydden nhw wedi dewis rhywle mwy preifat ynte. Roedd rhaid i mi gau fy llygaid a mynd o 'na fel oedden nhw'n dweud yn y News of the World, dw i'n deall!

## Carol Wright

Hi Rob

Dw i newydd ddarllen eich erthygl "Bore Da" yn Y Wennol.

Digwyddodd rhywbeth tebyg i fi yn ddiweddar. Dw i'n byw yn Lloegr ond ymwelais i â ffrindiau ym Mhenarth. Es i am dro ar y llwybr arfordir o Benarth i'r Barri. Cymerais i bob cyfle i siarad Cymraeg, felly, fel chi, dywedais i "Bore Da" wrth bawb a welais ar y ffordd. Dwedodd bob un " Morning" neu "hi". Wel, roedd rhaid i fi drio, onid oedd? *Dyfal donc ynte Carol! - Rob*

## Beth am ysgrifennu stori?

Erbyn hyn mae dros ddau gant a hanner o ddysgwyr wedi ysgrifennu stori i'r Wennol, rhai wedi ysgrifennu llawer gwaith. Bob tro maen nhw'n ysgrifennu dw i'n sylwi bod y safon yn gwella ac, yn amlwg, maen nhw'n mwynhau'r profiad.

Mae ysgrifennu yn rhoi'r amser i chi feddwl am y ffordd gorau i ddweud rhywbeth - does dim brys. Pan dach chi'n cael sgwrs mae pwysau mawr arnoch chi achos mae'n rhaid i chi ateb yn syth. Mae ysgrifennu yn eich paratoi chi at siarad efo pobl.

Allech chi ysgrifennu am unrhyw beth dach chi eisiau, eich gwyliau efallai neu rywbeth pwysig sydd wedi digwydd, llyfr dach chi wedi darllen - unrhyw beth!

Neu bwt bach amdanoch chi - eich enw, ble dach chi'n byw ac yn y blaen. Peidiwch â phoeni am gamgymeriadau chwaith achos mi fydda i'n mynd trwy bopeth cyn eu cyhoeddi.

Anfonwch eich stori ataf - rob@wennol.cymru

## What about writing a story?

By now about two hundred and fifty learners have written a story for The Wennol, some having written several times. Each time they write I notice that their Welsh is improving, and it's clear that they are enjoying the experience.

Writing gives you time to think about the best way to say something - there is no hurry. When you're in a conversation there is pressure on you - you have to answer straight away.

You can write about any subject you like, your holidays perhaps or something important that has happened, a book that you have read - anything!

Or a little bit about yourself - your name, where you live and so on. Don't worry about mistakes either because I go through everything before publishing.

Send your story to me - rob@wennol.cymru

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

# Tudalennau'r Dechreuwyr

Rywbeth hawdd i chi ddarllen ac, os dach chi eisiau, mae croeso i chi ysgrifennu rhywbeth hawdd i mi roi yn Y Wennol. Peidiwch â phoeni am wneud camgymeriad, dw i'n cywiro popeth! Ewch amdani - mae ysgrifennu yn hwyl!

## Canu ar y bws

gan Sue Ward



Ro'n i'n mynd ar y bws o ganol Rhydychen i Cowley. Arhosodd y bws yn Ffordd Cowley. Daeth grŵp o blant bach gyda phedair menyw. Ro'n nhw'n dod o feithrinfa. Roedd y plant yn eithaf bywiog, felly dywedodd un o'r menywod "Dyn ni'n mynd i ganu 'Yr olwynion ar y bws yn mynd rownd a rownd'". A dyma nhw yn canu.

Wedyn gofynnodd hi "Beth nesa?" "Y gyrrwr ar y bws" dywedodd bachgen. A dyma nhw yn canu eto. "Beth nesa?"

"Y gloch ar y bws." Ro'n nhw'n canu. "Beth nesa?"

Dywedodd hen ddyn "Ga i ofyn am 'Y wiperi ar y bws yn mynd swish swish swish'?" Roedd pawb yn gwenu. Roedd pawb yn canu. Arhosodd y bws a gwnaeth y plant gadael.

Chwifiodd pawb eu dwylo. Dywedodd pawb "hwyl fawr" a "diolch yn fawr." Roedd pawb yn gwenu. Roedd pawb yn hapus.

*Wel, am stori hyfryd Sue! Profiad byddech chi byth yn anghofio dw i'n siŵr. Diolch am ei rannu efo ni - Rob*

## Eirwen Rowlands

Ces i fy ngeni ym Mhen-y-bont ar Ogwr ond, pan oeddwn i'n fis oed, symudon ni i Birmingham; yna, 14 mlynedd yn ddiweddarach, symudon ni i Gernyw cyn dychwelyd i Gymru pan oeddwn i'n ddwy ar hugain oed.

Felly, ces i fy magu gydag acen Saesneg ac roeddwn i'n cael hi'n anodd i ynganu fy enw, Eirwen! (dywedodd rhywun wrthyf ychydig flynyddoedd yn ôl "Wel Eirwen, efallai nad oes gen ti'r acen eto, ond mae gen ti'r lilt!").

Nawr yn fy saithdegau hwyr, rwyf wedi sylweddoli, os byddaf yn rhoi'r 'a' ar ddiwedd "Eir', ac yn dweud "Eira-wen" yn gyflym, byddai'n llifo'n llawer gwell!

Does dim angen dweud, dw i'n cael fy swyno gan acenion ac yn gobeithio un diwrnod byddai'n swnio'n naturiol Gymreig pan fyddaf yn dweud fy enw!

## Marcela Belleland

Mi aethon ni i Passau, tref fach hyfryd iawn yn yr Almaen i ddechrau taith yn y bad afon ar hyd y Danube trwy Awstria, Bratislava a Budapest ac yn ôl i Passau. Roedd y daith yn y bad ond roedd tipyn o seiclo hefyd. Yn anffodus roedd y tywydd mor boeth, 36 a 37 gradd!! Roedd hi'n ofnadwy. Roedd rhaid i mi golli 2 daith ar y beic ac aros yn y bad efo 'air côn'. Beth bynnag, roedd y cefn gwlad yn hyfryd iawn. Gwnaethon ni basio gymaint o drefydd bach hyfryd iawn, roedd yn werth gweld y golygfeydd. Roedd y daith seiclo'n eitha' hir ac yn fwy anodd efo'r tymheredd ofnadwy. Pan wnaethon ni gyrraedd Budapest mi wnaethon ni ffeindio gwesty sba ar ynys fach, ynys St Margarit lle roedden ni'n gallu nofio tu allan a thu mewn, roedden ni wedi ymlacio ar ôl tywydd mor boeth. Am 8 o'r gloch y nos aethon ni i ymweld â Budapest ac roedd y tymheredd yn dal yn 30 gradd ond yn llawer gwell na 36!!! Mae Budapest yn ddinas hyfryd iawn! Yn anffodus dim ond am un diwrnod roedden ni'n aros.

Roedd Bratislava hefyd yn hyfryd iawn, gwerth ei weld!

Roedden ni wedi mwynhau'r cyfuniad o seiclo a hwylio. Ella bydden ni'n mynd i neud hyn eto, ella o Amsterdam tro nesaf, hwylio a seiclo.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Llangrannog

Ruth Connor

Helô! Dach chi'n cofio fi? Ruth dw i. Es i Benwythnos Teulu yn Llangrannog ym mis Chwefror efo fy mam a fy mab. Wel, cawson ni amser grêt! Dros y penwythnos, roedd Liam yn treulio'r amser efo ei grŵp yn y bore yn gwneud llawer o weithgareddau fel dringo, sgïo a chrefft y gwyllt tra oedd yr oedolion yn mynd i wersi Cymraeg. Roedd y tiwtoriaid yn ardderchog.

Nos Wener, gwnaeth Stwnsh Sadwrn dŵad i'r gamp i ddiddanu'r teuluoedd efo gemau llawn hwyl a doniol. Mae Liam yn hoffi Stwnsh Sadwrn achos, os yw'r plant yn ateb cwestion yn anghywir yn y cwis maen nhw'n cael 'pei yn y chops!' Enillodd Liam botel dwr cŵl efo Stwnsh Sadwrn ar yr ochr.


Nos Sadwrn, doth Tudur Phillips i'r gamp i wneud dawnsio gwerin a dawnsio clocs. Mae Tudur Phillips yn dalentog iawn. Mi gawson ni lawer o hwyl a dawnsio nes i ni flino'n racs! Cysgon ni'n dda iawn!

Bydden ni'n mynd yno eto ym 2027!

## Mis wrth Fis

## Nofio yn y awyr agored

gan Arianwen Evans



Yn ddiweddar, dw i wedi mwynhau nofio yn yr awyr agored. Dydd Mercher diwethaf, es i'r llyn ar ôl y gwaith gyda fy ffrindiau. Roedden ni eisiau gweld eclips yr haul. Fodd bynnag, roedd gormod o gymylau o flaen yr haul! Doedd hynny ddim yn bwysig.

Roedd hi'n hyfryd gweld cymuned Grasmere yn eistedd ar lan y llyn. Aethon ni i'r dŵr ac roedd hi'n braf iawn. Gwelodd fy ffrind Bronte a minnau gangen fawr yn arnofio yng nghanol y llyn. Nofion ni bellter mawr i'w gyrraedd! Wrth afael yn y gangen roedden ni'n gallu gorwedd ar ein cefnau yn y dŵr ac edrych ar yr awyr.

Roedd y tywydd yn gynnes ac roedd yr awel yn braf. Roedden ni ar ben ein byd. Defnyddion ni'r gangen i arnofio yn ôl at lan y llyn. Roedden ni yn y dŵr tan hanner awr wedi naw! Wel wir!

Cawsom ni pizza a sglodion. Yn y llwydnos, gwelais i a fy ffrindiau Bronte a Katherine, lawer o ystlumod yn hedfan dros y llyn.

Mae syrpréis bob dydd pan dych chi'n byw yn Grasmere!

## Fy Nhadcu

gan Rod Thomas

Cafodd fy nhad-cu ei eni a'i fagu ym Mryste, mewn stryd a oedd yn cefnu ar gae sydd, erbyn hyn, yn ei adnabod fel parc Brandon Hill a ble roedd fy nhad-cu, John Courtland Peters yn cadw ac yn ymarfer ei geffyl.

Roedd ei dad yn rhan o deulu o adeiladwyr llongau a dyna ble dechreuodd John Courtland weithio, ond roedd ei awydd am antur wedi cymryd drosodd ac yn 1900 ymunodd e a'r Somerset Yeomanry ac aeth e gyda nhw i Dde Affrica.

Siaradodd am lawer o bethau oedd wedi digwydd yn y wlad boeth yna ond ar ôl ei gyfnod o wasanaeth daeth e adre. Ar ôl dychwelyd i Brydain penderfynodd ymuno a'i frawd a oedd yn agor lladd-dy yn Nhroed y Rhiw yng Nghwm Merthyr ond yn anffodus doedd e ddim yn llwyddiannus ac wedi gadael ei frawd a mynd yn ôl i Fryste.

Yn y cyfamser roedd fy nhad-cu wedi cyfarfod a phriodi fy mam-gu, Prescilla Hughes a daeth o deulu yn Nhregaron, a nawr roedd rhaid iddo fe ddod o hyd i waith yn y pentre' a doedd dim dewis ond gweithio dan y ddaear. Roedd ei gyd-weithwyr wedi gwybod ers iddyn nhw adael yr ysgol bydden nhw'n lowyr fel eu tadau ond roedd John Courtland yn ffeindio'r gwaith yn anodd ac roedd yn casáu'r gofod cyfyng.


Doedd e ddim yn syndod, pan ddechreuodd y Rhyfel Byd Cyntaf ei fod yn un o'r rhai cyntaf i gofrestru a threuliodd e'r rhyfel yn y dwyrain canol tan 1920 pan ddoth e'n ôl i Droed y Rhiw.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Roedd fy mam yn meddwl bod e'n dipyn bach o fradwr, ond rwy'n tybio bod ei mam Prescilla wedi derbyn ei gyflog milwrol, ond iddo fe, ei 'ymgyrch olaf' - gadael y gofodau agored a'r awyr iach i fynd yn ôl dan y ddaear.


## Gwylanod

gan Nia Ellis



Yr olygfa yn Coverack

Yr haf yma, mi es i Gernyw efo fy nheulu. Roedden ni'n aros yn y pentref pysgota bach o'r enw Coverack. Dan ni wrth ein boddau yn Coverack, mae'n ddarluniaidd ac yn heddychol iawn efo dim ond y sŵn o'r môr ac ambell i wylan. Ond eleni, does 'na ddim 'ambell i wylan', ond llawer. Llawer a llawer o wylanod - gormod o wylanod! Bron o'r eiliad cyntaf o gyrraedd y tŷ gwyliau ro'n i'n gallu clywed y 'sqwark!"



Ar fy ngwyliau, dw i'n edrych ymlaen at ddim cloch yn canu yn y bore, ond, am hanner awr wedi pump y bore nesaf, ges i fy neffro i'r sŵn o 'squark, squark, squark!' - 5:30am yn y bore! Yn sicr iawn byddai'n cau'r ffenestr bob nos ar ôl hyn!


Roedd y gwylanod yn cadw llygaid ar ein bwyd trwy'r amser heb sôn am eu canu di-baid. Roedd hi'n hyfryd iawn i eistedd ar y balconi yn edrych dros y môr a bwyta pryd o fwyd. Sut bynnag, mwy nag unwaith, roedden ni gorfod 'shŵio' nhw i ffwrdd. Un diwrnod, mi ges i basti Gernyw (wrth gwrs) a gadewais friwsion ar y llawr. Mae'n werth i ddweud roedd 'na siytni poeth ar y briwsion, "Proper Spicy" siytni!

Yn ystod y nos, roedd fy ngŵr yn clywed sŵn od o'r lolfa – llawer o sŵn – cnocio. Roedd gwylan ar y balconi! Doedd hi ddim yn gallu hedfan i ffwrdd!



"Beth ddylen ni wneud? Sut bydden ni'n gallu helpu'r wylan?" dim syniad ond cyn i ni fedru helpu, wnaeth y wylan mess ar y balconi - dw i ddim yn meddwl roedd y wylan yn hoffi'r siytni - ac wedyn herciodd y wylan ar y bwrdd a gwneud ei ddianc. Glaniodd y wylan ar y to gerllaw a 'squarkiodd' ei anniddigrwydd.

Ar ôl hyn, doedd dim rhaid i ni 'shwio' un wylan o'n bwyd o gwbl!




A Welsh course - all in one book!

A comprehensive 90-lesson self-study Welsh-language course with basic dictionary. In full colour with an attractive modern design and illustrated throughout.

Double CD available to buy separately.

And also you can download FREE MP3 audio files to listen to.


A good opportunity for you to learn in your own time, at your own speed.

Available from your local Welsh bookshop or www.ylolfa.com

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

# Adar y Nant

*Cerddi i Ddysgwyr*




## Gol: Siwan Tomos

Gwasg Carreg Gwalch, £6.99

**Cyfres Amdani – Lefel Uwch**

Dyddiad Cyhoeddi: 27 Gorffennaf 2026

**Mae dysgwyr yn ennill mwy na geiriau Cymraeg wrth ddysgu'r iaith. Maen nhw hefyd yn defnyddio'r iaith fel allwedd i agor drysau nad oedden nhw'n gwybod amdanyn nhw cyn hynny. Mae barddoniaeth Gymraeg yn enghraifft wych o hynny.**

Dyma gasgliad o gerddi ar gyfer dysgwyr gan rai sydd wedi bod eu hunain ar y daith i ddysgu'r iaith. Mae rhyfeddod at yr iaith ei hun yn amlwg iawn yn y casgliad hwn. Felly hefyd yn y cerddi am wahanol gyfnodau hanesyddol neu wrth drafod ambell bwnc llosg cyfoes.

Mae natur a'r amgylchedd yn thema arall sy'n apelio at y beirdd, yn ogystal â cherddi sy'n cyflwyno golwg ar sawl cynefin o fewn Cymru.

***Meddai Siwan Tomos y golygydd:***

'Yn ystod fy nghyfnod yn gweithio yn Nant Gwrtheyrn, dw i wedi dod i werthfawrogi bod dysgu iaith yn llawer mwy na deall gramadeg a dysgu geirfa. Mae dysgwyr yn dweud wrthon ni dro ar ôl tro, ei fod yn borth iddyn nhw i fyd y Gymraeg, yn borth i Gymru sy'n teimlo ychydig yn wahanol nag yr oedd hi cynt.

Mae dysgu iaith yn ffordd o sylwi ar y byd mewn ffordd ychydig yn wahanol – mae'n wahoddiad i roi sylw i beth sydd o'n cwmpas ni, o dan ein traed a'r bobl a'r pethau fu yma o'n blaenau ni, mewn ffordd sy'n teimlo'n newydd.

Yn naturiol felly, mae'r casgliad yma o gerddi yn ymwneud â rhai themâu cyffredin – gyda'r ymdeimlad o le a pherthyn, hanes a threftadaeth a byd natur ymhlith yr amlycaf.

Mae siaradwyr newydd yn aml yn disgrifio'r profiad fel sefyll ar drothwy: ar y tu mewn ac ar y tu allan ar yr un pryd ac mae hynny i'w deimlo yn y gyfrol. I mi mae'r cerddi hyn yn dangos sut gall dysgu Cymraeg ddyfnhau ymdeimlad rhywun o le, dyfnhau'r berthynas â natur, ac agor drysau annisgwyl i hunaniaeth.

Mae'r lleisiau yn y gyfrol yn gyfoeth o brofiadau a chefndiroedd a chawn ein hatgoffa ar fwy nag un achlysur nad oes rhaid cael ein geni i rywbeth i berthyn, mae'n rhywbeth y gallwn ni ei feithrin neu ei ddysgu – fel iaith. Nid ymarfer eu Cymraeg y mae'r beirdd hyn yn ei wneud ond defnyddio'r Gymraeg i drafod profiadau ac i gyflwyno syniadau am y byd o'u cwmpas. Diolch iddynt nhw am rannu eu hawen gyda ni.'

**Siwan Tomos yw Prif Weithredwr Canolfan Iaith Nant Gwrtheyrn**

*Llongyfarchadau i bawb sydd wedi cyfrannu at y llyfr arbennig yma, mae ganddyn nhw bob hawl i fod yn falch iawn. Pwrpas Cymraeg i Oedolion yw gryfhau'r iaith wrth greu mwy o bobl sydd yn barod i'w siarad ond hefyd pobl sydd yn gallu cymryd rhan i greu adnoddau i ddiddanu bobl eraill, fel y llyfr yma.*

*Wrth gyfrannu at y llyfr yma dach chi'n gwneud hi'n bosib iddo gael ei gyhoeddi, ac, wrth ei gyhoeddi byddai'n ysbrydoli dysgwyr eraill i wneud yr un peth.*

*Mae taith dysgwyr tuag at ein gymunedau yn bwysig iawn ac mae darllen, ysgrifennu a siarad yr iaith yn rhan hanfodol o'r siwrne.*

# Unwaith eto Llongyfarchiadau!!

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Pam. Pam. Pam?
## gan Jan Hill-Tout



Mae cymaint o bethau yn y byd dw i ddim yn eu deall.

All unrhyw un esbonio i fi pam mae pobl ifanc yn syrthio i lawr, ond pan dych chi'n henach dych chi'n cael codwm? A pham mae pobl wedi anghofio sut i ddefnyddio dangosyddion pan maen nhw'n gyrru?

A pham mae pob cawod yn y byd yn wahanol i bob cawod arall? Mewn gwestai mae rhaid i bwy bynnag sy'n cael cawod yn gyntaf darganfod sut mae'n gweithio heb gael ei rewi na'i losgi. Weithiau maen nhw'n syml, weithiau yn gymhleth, ond gall bob un bod yn ddryslyd.

Un peth arall ... gallaf i fynd mewn i sedd cefn y car heb help. Dw i wedi ei gwneud trwy gydol fy mywyd. Ond yn ôl dramâu heddlu ar y teledu cyn gynted ag arestir troseddwyr, maen nhw'n anghofio sut i'w wneud e. Pob tro pan maen nhw'n mynd mewn i gefn y car heddlu mae'r swyddogion heddlu yn rhoi eu llaw ar ben y person er mwyn atal rhag gael ei daro. Pam?

Cwestiwn arall. Sut hyfforddir pobl i fod yn barista? Yn bendant maen nhw'n cael gwersi am sut i ddefnyddio peiriannau cymhleth a gwybodaeth am gynhwysion egsotig. Ond beth am siarad â chwsmeriaid? Mae'n amlwg i fi nad ydyn nhw'n cael eu dysgu i ddweud pethau fel 'bore da' ac yn y blaen! Pa fath o ddiod hoffech chi?' Na, maen nhw'n cael eu dysgu i ddweud 'ydych chi'n iawn?' Fy ateb i yw 'iawn diolch sut ydych chi?' Dim ond i fod yn gwrtais. Wedyn mae rhaid i fi aros i weld os bydd cynnig diod ar y ffordd. Pam? A pham maen nhw'n annerch dynion fel 'syr' a fi fel 'lyfli'?

Beth amdanoch chi? Anfonwch eich cwynau i'r cylchgrawn a byddaf yn edrych ymlaen at eu trafod nhw yn fy erthygl nesa. Hwyl fawr a phob lwc!

Wel Jan!

Mae gen i lawer o bethau i gwyno amdano a dw i'n teimlo bod ni i gyd yn mynd yn wirion am apps a gorfod cael dweud wrth bawb dan ni'n prynu oddi wrthyn nhw beth dan ni'n meddwl am eu gwasanaeth. Credwch fi, pan dach chi wedi ymddeol does dim amser i wneud y fath beth. Mae'r syniad yma wedi codi yn y ddegawd ddiwethaf ac os yw hyn mor bwysig sut yn y byd ydyn ni wedi ymdopi hebddo am ran fwyaf o'n bywyd?



Ond y diwrnod o'r blaen des i ar draws y beth mwyaf gwirion erioed. Roeddwn i wedi archebu rhywbeth ac roedd yn mynd i gyrraedd trwy'r Bost Brenhinol. Fel arfer os dw i allan pan mae dyn y post yn cyrraedd efo rhywbeth mae o'n mynd trwy'r gât a rhoi o yn ystafell y boiler wrth ochr y drws cefn ac mae o'n ysgrifennu neges ar gerdyn a rhoi o drwy'r blwch post,

Nes i gyrraedd adref, gweld y post, a mynd i'r gegin i'w agor a gweld os oedd rhywbeth diddorol. Mae'r gegin wrth y drws cefn. Mi oedd cerdyn o'r gwasanaeth post yn dweud bod nhw wedi newid y ffordd maen nhw'n gwneud pethau ac roedd rhaid i mi sganio ryw côd QR, nes i hynny ond gwnaeth dim byd ddigwydd. Roedd y cerdyn hefyd yn dweud allaf fi gael y wybodaeth o'r wefan. Es i at y wefan a rhoi rhif mewn bwlch a doth neges yn syth yn dweud wrtha i bod y paced wedi ei adael yn y 'lle diogel'.

Rŵan mae rhaid i mi ddweud wrthych chi bod y 'lle diogel' wrth ochr y drws cefn felly roedd rhaid i mi fynd i lawr y grisiau unwaith eto, i'r gegin, allan o'r drws cefn i agos drws stafell y boilar.

Ble mae synnwyr cyffredin? Yr hen sustem oedd i'r dyn post ysgrifennu neges fer ar gerdyn yn dweud ble oedd y parsel - syml iawn ond efallai bod ni wedi symud ymlaen yn llawer mwy cyflymach na dwi'n sylweddoli ac nad yw'r pŵr dab oedd wedi meddwl am y sustem newydd byth wedi clywed am feiros Bic a phensiliau?


Beth dach chi'n meddwl? - Rob

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

## Byd Natur – mis Medi 2026

gan Patrick Soper

Mae pry tarian wyrdd gyffredin yn olwg eithaf cyfarwydd mewn cloddiau ac yn ein gerddi. Brodorol i'r glannau hyn, dyma un o fwy na 40 rhywogaeth y pry hwn yn y DU, a gellir dod o hyd iddyn nhw ledled Ewrop. Mae gan lawer o'r creaduriaid gwyrdd llachar hyn adenydd gyda blaenau tywyll.



Pry Tarian

Does ganddyn nhw ddim ceg gyda dannedd - yn lle hynny maen nhw'n defnyddio tiwb er mwyn sugno sudd maethlon oddi wrth amrywiaeth o blanhigion, yn enwedig y gollen. Prin iawn yw'r difrod i blanhigion fferm neu yn ein gerddi - ond gallan nhw gynhyrchu arogl ffiaidd os ydyn nhw'n teimlo dan fygythiad.

Y pryfed gwyrdd twt hyn rydym yn eu gweld o'r gwanwyn cynnar ymlaen yw'r rhai sydd wedi gaeafgysgu. Bydd y fenyw yn dodwy eu hwyau ar ochr isaf dail rhwng Ebrill a Mehefin, gyda'r nymffau yn ymddangos 2 - 3 wythnos yn ddiweddarach. Byddan nhw yn oedolion erbyn mis Medi ac yn barod i aeafgysgu ym mis Tachwedd; erbyn hynny y byddan nhw wedi troi'n frown neu liw efydd.

Ond rhywbeth yn hollol wahanol yw'r pryf tarian wyrdd y de. Wedi'u darganfod yn gyntaf yn ardal Llundain yn 2003, dyma bryfed goresgynnol o Affrica sydd yn peri difrod difrifol i gnydau megis ffa, tomatos a phuprynnau coch a melyn. Mae pryfed hyn yn prysur ledu dros De Loegr.

Ychydig yn fwy nag ein pryfed tarian frodorol ein hunain, a mwy sgleiniog, mae ganddyn nhw ysmotyn du a gwyn ar hyd eu cefnau.

*

Aelod teulu'r rhosyn yw'r gerddinen neu griafol sydd yn llwyn yn hytrach na choeden fel arfer ond, ambell waith, gall gyrraedd daldra o 40 troedfedd. Mae'n frodorol drwy gydol rhanbarthau tymherus hemisffer y gogledd. Mae dail y gerddinen yn debyg i rai'r onnen, ac o dro i dro caiff y gerddinen ei alw yn Saesneg 'mountain ash' felly, ond dydyn nhw ddim yn perthnasu.



Y Gerddinen

Daw sypiau o flodau gwyn hufennog yn aeron cochion llawn sudd sydd yn atyniadol i sawl rhywogaeth o adar, yn enwedig bronfreithod. Mae modd gwneud yr aeron yn jam neu, amser maith yn ôl ac ymhlith cymunedau tlawd, rhyw fath o win o'r enw 'diodgriafol'. Er hyn dylech chi ddim bwyta'r aeron yn amrwd.

Ar waelod pob un aeronen mae yna batrwm fel seren gyda phum pwynt, lle'r oedd y blodyn yn arfer bod. Yn yr hen ddyddiau câi cerddinen ei phlannu ger drysau tai, gan feddwl y byddai'r pentagram yn cadw gwrachod i ffwrdd.

Mae cerddinen yn tyfu yn gyflym, a pharhau hyd at 100 blynedd. Dwys yw ei bren a all gael ei ddefnyddio ar gyfer carn arfau neu ffyn cerdded.

## Argyfwng yn y Mynyddoedd

gan Mike Brown



**Rhan 11**

Edrychodd e lan i'r nefoedd i ddod o hyd i'r Aradr. Roedd yna, uwch ei ben. Ond roedd e'n synnu gweld Seren y Gogledd ar ei chwith. Roedd e'n disgwyl ei gweld hi i'w dde. Ond am nawr doedd hynny ddim yn ei bryderu. Roedd e angen dod o hyd i'w gwmpawd a'i fap yn y babell a dechreuodd gynllunio ei ddihangfa.

Yn ei frys, roedd e mewn tipyn o drafferth yn ei babell heb bolyn ond o fewn ychydig o

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

funudau, roedd e'n sefyll y tu mas gyda'i gyfarpar yn barod i fynd.

Addasodd ei gwmpawd ar gyfer cyfeiriad y gogledd ac yna ei bwyntio at Seren y Gogledd. Yn y golau o'i dortsh ben, syllodd ar ei gwmpawd ac am funud roedd yn anodd credu'r hyn yr oedd yn ei weld. Nid pen gogleddol y nodwydd oedd yn cyfeirio at y Seren, na, ond y pen deheuol. Roedd ei gwmpawd yn pwyntio 180° i'r cyfeiriad anghywir!

Gyda'r wybodaeth hon, ni chymerodd yn hir i sylweddoli ei gamgymeriad ar ben y mynydd, a hefyd, ble roedd e nawr.

Gwiriodd yr amser, roedd hi'n hanner nos. Dyfalodd y byddai'r tîm achub ar y mynydd yn chwilio amdano erbyn hyn. Felly, dylai geisio mynd i gwrdd â nhw ar ei lwybr arfaethedig gan geisio lleihau eu hanghyfleustra.

Un gwiriad olaf am y cyfeiriad cywir ac roedd e'n barod i fynd. Yn ôl i fyny'r llethr i'r brig, roedd pethau'n amlwg nawr.

**Rhan 12**

Roedd e'n symud yn dda ar y ffordd lan y llethr, roedd y cerdded braidd yn hawdd. Ond, roedd ei feddyliau mewn mannau eraill. Beth allai fod wedi digwydd? Sut gallai ei gwmpawd bwyntio i'r cyfeiriad anghywir? Mae rhywbeth a ddylai fod wedi bod mor ddibynadwy wedi troi cefn arno. Nid fel hyn y dylai fod. Wrth iddo edrych i'r pellter, daeth ei feddyliau yn ôl i'r presennol. Roedd e wedi bod yn synnu at yr hyn a darganfu. Ond nid oedd hyn yn rhywbeth i'w ddatrys nawr. Achub ei hunain oedd ei flaenoriaeth.

Aeth e ymlaen nerth ei draed.

Wedyn, yn uchel ar y llethr uwchben, gwelodd e olau am eiliad, wedyn, roedd yna eto. Na, nid un ond dau, yn symud i lawr tuag ato. Roedd y goleuadau'n dod a mynd gyda chyfuchliniau'r bryn. Achub Mynydd meddyliodd. Wel, yn rhy hwyr i'w hatal ar y ffordd i fyny ond o leiaf mae e wedi bod yn achubiaeth gyflym.

Daeth y goleuadau yn agosach ato fe wrth iddo fe frysio ymlaen lan ochr y mynydd. Yna daeth un golau i lawr ato fe yn gyflym iawn. Ci oedd e, yn rhedeg tuag ato, yn cyfarth yn uchel nawr. Ac yno yr oedd, ci Chwilio ac Achub, yn cyfarth mewn cyffro' wrth ei draed. Roedd hyd yn oed yn edrych fel bod o'n gwenu. Nesaf daeth dyn yn cerdded yn ofalus ond yn gwneud cynnydd cyson. Roedd e'n anodd gweld wyneb y dyn oherwydd ei dortsh ben. Ond doedd dim angen. Adnabuwyd ei lais ar unwaith. Ali o Dîm Achub Mynydd Cairngorm.

Ebychodd e, “Steve, ti yw'r person olaf byddwn i'n disgwyl i orfod cael ei achub. Galla i weld dy fod ti'n iawn gan y cyflymder ti'n cerdded lan y bryn. Beth sydd wedi digwydd?”

## Ydych Chi'n Cofio?
## mis Medi 1997?

gan Patrick Soper

Dydd Iau 18fed mis Medi 1997 cynhaliwyd refferendwm ledled Cymru y byddai yn ysgrifennu tudalen pwysig o'n hanes cenedlaethol, y dyddiad pan wnaethon ni bleidleisio o blaid datganoli rhyw bwerau cyfyngedig oddi wrth San Steffan i gynulliad ym Mae Caerdydd. Dyna fyddai ein cam cyntaf mewn amserau cyfoes tuag at sefydlu senedd Gymreig.

Nid oedd yn pleidleisio o blaid yn dewis difeddwl oherwydd yr oedd llawer o leisiau tu fewn Cymru a oedd yn rhybuddio y gallai fod hyn yn drychineb cymdeithasol ac ariannol; wedi'r cyfan, naid i'r tywyllwch oedd hyn. O ganlyniad, ni phleidleisiodd rhyw hanner ein poblogaeth ac, ymhlith y rhai a aeth i'w gorsafoedd pleidleisio dim ond 50.3% oedd o blaid cynulliad datganoledig i Gymru.

Yn ôl hanes, mae ein senedd gyntaf yn dyddio yn ôl i 1404 pan sefydlwyd Owain Glyndŵr cynulliad ym Machynlleth. Roedd wedi gwahodd cynrychiolwyr oddi wrth gymunedau dros Gymru i fynychu. Ac yn ystod y cyfarfod cyntaf o'r Senedd cafodd Owain ei goroni yn Dywysog Cymru yng ngwmni llysgenhadon o'r Alban, Ffrainc a Sbaen.

Ond nid oedd hyn i fod. Sathrwyd breuddwydion Tywysog Owain gan y darpar Frenin Harry V, ac ystyriwyd ein gwlad i fod yn ddim mwy na rhanbarth trafferthus o Loegr.

Yn ystod y 1800au y bu yna alwadau yng Nghymru am ryw fath o gynulliad cenedlaethol; ac mor ddiweddar â'r 1950au wnaeth y Fonesig

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Megan Lloyd George gasglu deiseb o 250,000 llofnodau o blaid cynulliad Cymreig.

Yn 1965 aethom yn agosach pan sefydlwyd y Swyddfa Gymreig gan lywodraeth Llafur Harold Wilson. Ond ar y llaw arall yn 1979 pleidleisiodd bobl Cymru yn benderfynol yn erbyn cynulliad cenedlaethol, ac aeth cenhedlaeth heibio cyn daeth teimlad rhywsut yn ein gwlad yr oedd amser inni symud ymlaen, ac felly cyflawnwyd 'Ie' yn refferendwm 1997.

Wedi'i adnabod ar y dechrau fel Cynulliad Cenedlaethol Cymru, daeth i fodolaeth ar y 12fed Mai 1999, gyda dim ond 60 cynrychiolydd.

Ym mis Tachwedd 2001 cyhoeddodd Ysgrifennydd Cyntaf Rhodri Morgan y byddai'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cael ei adnabod o hynny ymlaen fel Cynulliad Llywodraeth Cymru.

Yng Ngwanwyn 2006 symudodd Cynulliad Llywodraeth Cymru i'w cartref pwrpasol cyfredol, wrth ddefnyddio'r teitl 'Senedd'.

Gyda thri degawd bron wedi llifo heibio ers y refferendwm 1997 rydyn ni'n meithrin synnwyr eglurach o bwy yr ydym wrth inni barhau i adennill ein cenedligrwydd.

Yn anad dim mae rhaid inni gofio nad yw annibyniaeth yn unrhyw beth i'w wneud â geiriau wedi'u harysgrifennu ar femrwn. Na - rydym yn cyhoeddi mai cenedl yw Cymru drwy ddatganoli ac yn defnyddio ein hiaith ar bob cyfle.

**Don't let grammar get you down!**

Grammar is complicated in any new language so it's quite strange that we learnt our first language without a hint of grammar and its rules. Even at a young age your brain sorted it out painlessly. Your brain is still able to do this but you have to feed it stories, sentences and suchlike. A suitable book gives you that and a whole lot of pleasure to boot.

**Why not give it a try?**

## Tapestri'r Mabinogi

gan Dixie Brooks




Helô Pawb

Am y ddeunaw mis diwethaf dw i wedi bod yn cynnal grŵp ffeltio nodwydd bob dydd Sadwrn yng Nghanolfan Grefft Neuadd Buddug yn Llanbedr Pont Steffan. Mae'n ddosbarth am ddim i oedolion ac mae croeso i bawb. Dyn ni'n cael te, coffi a chacennau cartref am ddim.

Ers dros flwyddyn mae'r bobl wych sy'n dod wedi gwneud pob math o anifeiliaid, adar, madarch a mwy, wedi'i wneud allan o wlân, gan ddefnyddio'r nodwydd ffeltio, nodwydd bigog arbennig. Dyn ni wedi dod yn ffrindiau mawr, ac wrth i ni weithio ar ein prosiectau ffelt rydym yn rhannu ein straeon, yn cael chwerthin ac yn bwyta cacennau.



Yna cawsom syniad y byddai'n wych creu tapestri ffeltio nodwydd am y Mabinogi. Felly fe wnaethon ni gysylltu â Chyngor Celfyddydau Cymru gyda'n syniad ac fe wnaethon nhw gefnogi ein breuddwyd yn hael gyda grant i dalu am ddeunyddiau, a

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

minnau i ddylunio ac arwain y prosiect. Gwnes y ddelwedd mewn lliw ar bapur, yna fe wnaethon ni daflunio'r ddelwedd ar ddarn mawr o flanced wlân wyn, a dalgopiais y dyluniad cyfan ar y gwlân.



Am yr wyth wythnos diwethaf dyn ni'n wedi gweithio gyda'n gilydd i gwblhau'r tapestri sydd bron â'i gwblhau. Dyn ni'n wedi bod yn gweithio arno mewn pum adran a fyddai i gyd yn cael eu cysylltu unwaith mae o wedi ei gwblhau. Fe'i gelwir 'Menywod y Mabinogi'. Dyma lun o'r llun gwreiddiol a rhai o'r adrannau sy'n cael eu gweithio arnynt. Yn rhifyn nesaf Y Wennol rwy'n gobeithio anfon llun o'r tapestri gorffenedig. Mae'n gyffrous gweld y weledigaeth hon yn dod yn fyw.

Pob hwyl i bawb, Dixey

***A chofiwch ddweud wrthon ni ym mhle bydden ni'n gallu gweld y tapestri arbennig yma os gwelit ti'n dda Dixie - Rob***

## Taith i Eisteddfod y Garreg Las 2026

gan Mikeal Conq



Ers mwy na 30 flwyddyn, dw i wedi arfer cael cysylltiad blynyddol gyda Chymru. Roeddwn i'n mynd yn gyson gyda phwyllgor gyfeillio fy mhentref, Plougin (Llydaw), i Drefdraeth - Nanhyfer, yn Sir Benfro. Yn anffodus mae'r cynllun gyfeillio wedi dod i ben erbyn hyn. Ond dw i'n adnabod llawer o bobl sydd yn byw yn Abergwaun fel Rita Williams. Roedd hi wedi rhoi ei geiriadur Llydaweg-Cymraeg i fi a llyfrau Cymraeg eraill.

Penderfynais i ddysgu Cymraeg safon sylfaen ar fy mhen fy hun. Yn araf bach, es i ymlaen! Es i Eisteddfod Y Fenni yn 2017 a hefyd Ynys Môn yn 2018.

Yn 2023 wnaeth fy ngwraig a finnau gael antur ar gefn beiciau, o Roscoff i Plymouth, dros ran o Loegr i Gymru a draw i Sir Benfro. Pwrpas ein taith oedd i mi sgwrsio yn Gymraeg gyda chymaint o bobl ag o'n i'n gallu! Aethon ni ddim i'r Eisteddfod y flwyddyn honno. Ond dechreuais i ysgrifennu yn Gymraeg i'r cylchgrawn Y Wennol, fath o ddyddiadur o'r antur. Diolch i ti Rob! Ers hynny dw i'n dal ati yn ysgrifennu bob mis yn Y Wennol. Dw i'n cael pleser yn darllen straeon gan ddysgwyr eraill.

Roedd rhaid i mi fynd i Eisteddfod Y Garreg Las, achos roedd yn digwydd yn ardal Y Preseli ac yn agos i gartre fy ffrindiau Lis ac Elfed . Yn ychwanegol penderfynais i ofyn am wirfoddoli bob dydd yn ystod yr wythnos gyfan. Roeddwn i'n falch o gael fy nghroesawu fel gwirfoddolwr. Roedd yn gyfle i symud ymlaen a'r iaith, i ddefnyddio'r Gymraeg yn unig, roedd fel cwrs dwys dros 13 diwrnod!



Kevin, Mikeal a Dewi

Yn y trên o Fryste i Abergwaun, roeddwn i'n gallu deall yr holl negeseuon. Mae'r iaith hefyd yn amlwg ar yr arwyddion ffyrdd a dinasoedd. Diolch i fy ffrindiau Ffran, Rob, Peter a Pat, Lis ac Elfed, Nigel a llawer o bobl eraill, roedden i'n sgwrsio yn Gymraeg trwy'r amser! Roedd yr awyrgylch yn hyfryd a chroesawgar, profiad cyfoethog a phleserus i mi! Dim ond gwirfoddolwr safon isel o'n i, *(Rwyt ti'n rhy ddiymhongar o lawer Mikeal - Rob)* ond roedd

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

pawb, y gwirfoddolwyr eraill, a’r holl ymwelwyr yn hapus iawn i fy helpu fi i wella fy ynganiad a geirfa.

Roeddwn i ‘n siarad â phawb, o’r gogledd neu o’r de. Dysgais eiriau o dafodiaith ardal y Preseli fel ‘wes’ yn lle ‘oes’. Yn ystod pob bryd, siaradais gyda phobl o bob oedran, dechreuwyr a phobl Gymraeg o bob lefel. Y peth fwyaf diddorol oedd sgwrsio â’r gwirfoddolwyr eraill. Doedd dim angen siarad na  Saesneg na Ffrangeg. Wrth i mi wisgo crys-t gyda geiriau Llydaweg arno, nes i gyfarfod â Llydäwyr, ond hefyd â phobl a oedd yn hapus i ddysgu ychydig eiriau o’r Llydaweg! Gwelais i nerth yr iaith Gymraeg, ac yn enwedig y cystadlaethau canu a barddoniaeth sy’n rhoi gymaint o egni i bawb.

Ar ôl ddychwelyd i Lydaw, roeddwn i‘n teimlo fy mod yn gallu deall geirfa sylfaenol Cymraeg. Dw i'n mwynhau darllen llyfrau Cymraeg. Rwy’n gwybod wrth gwrs, bod angen i mi barhau i ymarfer ac yn enwedig i siarad! Diolch i bawb am roi’r holl gymorth i fi!

## Cymdeithas Gymraeg Llandeilo Ferwallt

## Rhaglen 2026/27

gan Martin Jones

Ar hyn o bryd mae pwyllgor y Gymdeithas wrthi’n gorffen ein rhaglen ar gyfer y tymor 2026/27, ond rydw i’n hapus i ddweud fy mod i mewn sefyllfa i roi newyddion ecscliwsif ynglŷn â’r rhaglen i ddarllenwyr Y Wennol!

Bydd y tymor newydd yn dechrau ar 19eg o fis Hydref, ac yn ôl ein harfer cynhelir cyfarfodydd am 19.00 ar y drydedd nos Lun o bob mis o fis Hydref i fis Mehefin yn Neuadd Murton. Rydw i’n llawn cyffro cael dweud taw, fel y gwnaeth hi ddwy flynedd yn ôl, y delynores Delyth Jenkins fydd yn agor y tymor newydd. Mae’n siŵr o fod yn noson ddiddorol a difyr.

Wedyn ar 16eg o fis Tachwedd, byddwn ni’n cael clywed hanes cynnar Ysbyty Abertawe. Faint ohonoch sy’n byw yn ardal Abertawe’n cofio’r adeilad crand ar y cornel rhwng Ffordd Sain Helen a Ffordd Bryn y Môr?  Wel, dw i’n cofio’r hen ysbyty, ond nid atgofion melys sy gyda fi o’r lle ble es i pan oeddwn i’n ifanc iawn i gael llawdriniaeth i gael gwared â fy nhonsilau. Anodd credu nawr, ond ar y pryd doedd rhieni dim yn cael ymweld â’u plant, felly nid yn brofiad hapus i fi!  Ond dyna ddigon am hynny, ac yn ôl at y rhaglen!

Cynhelir ein cinio Nadolig ar y 14eg o fis Rhagfyr. Ie, rydw i’n gwybod, nid trydydd dydd Llun mis Rhagfyr ydy hwn, ond roedd y pwyllgor yn meddwl bod y 21ain o Ragfyr yn rhy agos at Ddydd Nadolig. I mewn i’r flwyddyn newydd, ac ar y 18fed o fis Ionawr, byddai Heini Gruffudd yn siarad am hanes y Gymraeg yn ardal Abertawe.

Mae manylion rhai o’r sgyrsiau rhwng mis Chwefror a mis Mai’n dal i’w cadarnhau, ond ymhlith y pynciau ydy “Y Cerddwr Cyffroes” (teitl dirgel!); “Yr Argyfwng Hinsawdd,” pwnc llosg (yn llythrennol) ar hyn o bryd wrth i ni fynd trwy gyfnod arall o dywydd poeth iawn; ac “Mwy am y Cymry yn Llundain.” Ond galla i gadarnhau bod, unwaith eto, Côr Tŷ Tawe wedi derbyn ein gwahoddiad i ddod â’r tymor i ben ar y 21ain o Fis Mehefin.

Bydd y rhaglen derfynol ar gael mewn da bryd i’w chynnwys yn rhifyn Hydref Y Wennol. Mae aelodau’r Gymdeithas yn gyfeillgar iawn a wastad yn gefnogol i ddysgwyr. Felly, beth am roi cynnig arni? Does dim byd i’w golli ac mae’n ffordd wych o “groesi’r bont” i’r gymuned Gymraeg.

## Cerddoriaeth Mis Medi

gan Anthony Morgan



Iaith y Nefoedd

Dw i’n mwynhau meddwl am syniadau ar gyfer yr erthyglau yma bron cymaint â gwrando ar y gerddoriaeth. Y tro ‘ma, dw i’n gwneud rhywbeth tipyn yn wahanol wrth drafod dau albwm cafodd eu seilio ar lyfrau.

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

Cyflwynwyd Iaith y Nefoedd gan Yr Ods fel "cywaith cysyniadol, aml gyfrwng newydd" ar hyd y nofel distopiaidd enwog o'r un enw. Rhyddhawyd nofel Llwyd Owen yn 2019 ac mae'n adrodd dwy stori ddigalon gyda bedwar deg o flynyddoedd rhyngon nhw.

Y trac cyntaf yw T, trac llafar, sy'n gosod yr olygfa o'r albwm cyfan ac yn darparu cefndir y stori, sef stori o fyd treisgar a phydredig, lle mae gobaith a rhyddid bron wedi marw. Fel teitl yr albwm a'r nofel, mae teitlau'r caneuon yn eironig; Iaith y Nefoedd yn disgrifio byd sy'n unrhyw beth ond nefoedd, er enghraifft, mae'r teitl Ger Yr Afon yn codi argraffiadau o hen gerddi am afonydd prydferth, nid y Taf llygredig sy'n llifo trwy'r ddinas lom a pheryglus.

Mae'r lleisiau hynaws ac alawon melys yn cyferbynnu gyda'r geiriau tywyll a chynnwys i greu profiad anhygoel o deimladwy. Mae hyn yn enwedig o wir gyda'r trac gorau o'r albwm, sef Ceridwen. Heb os, moment tristaf y nofel yw ffawd Ceridwen, sy'n digwydd yn gynnar yn stori 2066 ac yn taflu cysgod dros weddill y llyfr. Mae'r gân o'r un enw yn deyrnged hynod o brydferth i'r fenyw ifanc drasig.

Trwy lygaid Mair, arwres y stori 2066, dyn ni'n cael cipolwg o obaith bach tuag at ddiwedd yr albwm. Ydy'r gobaith yn gyfiawn? Fel yn y nofel, penderfyniad y darllenwr (neu wrandäwr) yw e.


Y Dydd Olaf

Rhyddhawyd y nofel Y Dydd Olaf yn 1976 a, fel Iaith y Nefoedd, mae'n cynnwys dwy stori gwahanwyd gan amser. Mae'r stori yn sôn am bynciau megis hunaniaeth, rhyddid a gwrthwynebiad. Cafodd albwm Gwenno ei rhyddhau yn 2015, bron pedwar deg flwyddyn ar ôl y nofel.

Adroddwyd mewn steil epistolaidd, dyn ni'n dysgu llawer am y prif gymeriad, Marc, ond mae teimlad o ddatodiad rhyngddo fe a'i fyd. Trwy'r nofel, mae Marc yn brwydro yn erbyn y peiriannau, collodd ei feddwl a'i hunaniaeth. Beth fydd ei ffawd? Fydd e'n troi'n un ohonyn Nhw? Neu yn "adnoddau"? Mae'r albwm hon yn cyfleu profiadau Marc yn berffaith gyda llais swynol Gwenno a'i sŵn dyfodolaidd ac arallfydol, sy'n creu delwedd o ansicrwydd ac afrealrwydd.

Siŵr o fod, y gân fwyaf bythgofiadwy o'r albwm yw Fratolish Hiang Perpetshki. Mae'r ymadrodd, yn iaith y peiriannau, yn ymddangos trwy'r nofel ac yn dynodi'r cyfnodau pan mae amddiffyniadau Marc yn gwanhau. Pan mae hynny'n digwydd, mae'r peiriannau'n tresmasu ar feddyliau Marc ac mae'r ffiniau rhwng y byd rhithiol a'r byd go-iawn yn ansicr. Does dim canwr arall sy'n gallu codi argraff o hyn yn well na Gwenno.

Mae llawer o ddawn yn y byd cerddorol Cymraeg ac mae'n hyfryd gweld artistiaid yn cael ysbrydoliaeth gan gyfryngau gwahanol ac yn mynegi eu hunain trwy gydweithio ac arloesi i greu cerddoriaeth mewn ffyrdd newydd.

**Geirfa**

**Glöynod byw**
Ailwampio - to refurbish
Lafant - lavender
Ardal y Llynnoedd - The Lake District
Trafnidiaeth - traffic
Heidio - to swarm
Glöyn byw - butterfly
Adennydd - wings

**Canu ar y bws**
Bywiog - lively

**Eirwen Rowlands**
Ynganu - to pronounce
Swyno - to enchant

**Marcela Belleland**
Bad afon - riverboat
Cyfuniad - combination

**Llangrannog**
Gweithgareddau - activities
Diddanu - to amuse

Er mwyn cael Y Wennol pob mis anfonwch eich cyfeiriad e-bost ataf - rob@wennol.cymru

**Mis wrth Fis**
Cangen - branch
Ar ben ein byd - on top of our world
Llwydnos - dusk
Ystlum - bat

**Fy Nhadcu**
Lladd-dy - abattoir
Gofod cyfyng - confined space
Cofrestru - to sign on
Ymgyrch olaf - final effort

**Gwylanod**
Darluniaidd - picturesque
Heddychol - peaceful
Hercio - to hobble
Anniddigrwydd - displeasure

**Pam, Pam, Pam?**
Dangosyddion - indicators
Trwy gydol - all through ...
Cynhwysion - ingredients
Archebu - to order (something)

**Byd Natur**
Pry tarian wyrdd - common green shield bug
Cloddiau - hedgerows
Brodorol - native
Rhywogaeth - species
Maethlon - nutritious
Collen - hazel
Cynhyrchu - to produce
Ffiaidd - unpleasant
Gaeafgysgu - to hibernate
Efydd - bronze
Goresgynnol - invasive
Cnydau - crops
Cerddinen - rowan tree
Onnen - ash tree
Sypyn - bunch
Sudd - juice
Atyniadol - attractive
Aeron - berries
Amrwd - raw
Gwrach - witch
Dwys - dense
Carn arfau - rifle stock


**Argyfwng yn y mynyddoedd**
Yr aradr - the plough
Seren y gogledd - the north star
Dihangfa - escape
Cyfarpar - equipment
Nodwydd - needle
Deheuol - southern
Dyfalu - to guess
Arfaethedig - intended
Anghyfleustra - inconvenience
Llethr - slope
Y brig - the peak
Dibyniadwy - dependable
Darganfod - to discover
Datrus - to solve
Blaenoriaeth - priority
Cyfuchliniau - contour lines
Cynnydd cyson - steady progress

**Ydych chi'n cofio?**
Cyfyngedig - restricted
Llyscenhadon - ambassadors
Sathru - to trample
Rhanbarth - region
Trafferthus - troublesome
Deiseb - petition
Llofnod - signature
Cenedligrwydd - nationality
Arysgrifennu - to inscribe

**Tapestri'r Mabinogi**
Taflunio - to project
Dalgopio - to trace
Adran - part
Gorffenedig - finished
Gweledigaeth - vision

**Taith Eisteddfod**
Pwyllgor gyfeillio - twinning committee
Yn ychwanegol - in addition
Cwrs dwys - intensive course

**Cerddoriaeth**
Seilio ar - based on
Cywaith - joint work
Cysyniadol - conceptual
Treisgar - violent
Pydredig - rotten
Argraffiadau - impressions
Llom - barren
Hynaws - gentle
Cyferbyniad - contrast
Cyfiawn - just
Hunaniaith - identity
Gwrthwynebiad - opposition




# MIS HANES OGWR

**Richard Cleaves**

Croeso i'r trydydd Mis Hanes Ogwr blynyddol! Wedi'i drefnu mewn partneriaeth â Rhwydwaith Treftadaeth Ogwr (gan gynnwys Cymdeithas Hanes Bro Ogwr), rydym yn edrych ymlaen at gynnal mis o sgyrsiau hanes, teithiau cerdded, ffilmiau, arddangosiadau a digwyddiadau trwy gydol mis Medi ledled Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau hyn am ddim, diolch i gyllid gan Lywodraeth Cymru, ond nodwch y bydd angen i chi archebu eich tocynnau ymlaen llaw ar gyfer llawer o'r digwyddiadau.
Fel mewn blynyddoedd blaenorol, bydd nifer o Ddiwrnodau Agored am ddim yn cael eu cynnal ledled y sir trwy gydol mis Medi, ar y cyd â gŵyl Drysau Agored CADW.

Mae'r rhaglen a rhagor o wybodaeth am yr holl ddigwyddiadau, gan gynnwys manylion archebu, ar gael ar ein gwefan: **awenboxoffice.com** ac ar dudalen Facebook Cymdeithas Hanes Bro Ogwr, https://www.facebook.com/CymdeithasHanesBroOgwr

Os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am ddigwyddiad, gallwch chi naill ai gysylltu â lleoliad y digwyddiad penodol, neu e-bostio: history@awen-wales.com

Dyma'r sgyrsiau ayyb yn y Gymraeg:

Dydd Mawrth, 8 Medi 7-00 yn y Tair Pedol, Cefn Cribwr:
**Cofio Ann**, Siân Meinir.
Cyfle i werthfawrogi pwysigrwydd yr emynydd o Gymru Ann Griffiths a'i gwaith wrth i ni ddathlu 250 mlynedd ers ei geni.

Dydd Mercher, 9 Medi 1-00 Sinema, Y Bocs Oren, Neuadd y Dref, Maesteg,
**Patagonia**
Mae'r ffilm hon, sydd wedi'i gyfarwyddo gan Marc Evans ac y mae'r actor Matthew Rhys yn serennu ynddi, yn archwilio hunaniaeth mewn dwy daith gyfochrog. Mae cwpl o Gymru yn teithio trwy Dde America yn chwilio am eu treftadaeth, tra bod menyw oedrannus o'r Ariannin yn ymweld â Chymru i olrhain ei gwreiddiau.

*Yn parhau ar y dudalen nesaf*

Dydd Llun, 14 Medi, 7-30 yn y Tair Pedol ac ar Zoom gyda Chymdeithas Hanes Bro Ogwr
**Iolo Morgannwg a Gwerin Morgannwg**, Allan James

Dydd Mercher, 16 Medi, 2-00, Llyfrgell Porthcawl
'**Felly dyna sut oedd pobl yn ysgrifennu 2000 o flynyddoedd yn ôl!**', Richard Cleaves
Bydd Richard yn cyflwyno llechi ysgrifennu Bloomberg, Vindolanda ac Uley. Mae'r llechi hyn yn agor ffenestr i fyd y Celtiaid a'r Rhufeiniaid ym Mhrydain 2000 o flynyddoedd yn ôl. Mae'r sgwrs hon yn gysylltiedig â llyfr Richard a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar y pwnc diddorol hwn.

Dydd Mercher 16 Medi, 7-00 Y Tair Pedol, Cefn Cribwr
**Iolo ... Cerddoriaeth, Cefn a Chymru**
Clwb Alawon, Bethan Nia a'r Cefn Gwyrdd
Bydd y noson arbennig hon yn ddathliad o Iolo Morgannwg, treftadaeth a cherddoriaeth Gymreig a'r iaith Gymraeg, gyda cherddoriaeth delyn wych gan Bethan Nia.

Dydd Sadwrn, 19 Medi, 10-00 tan 4-00, Neuadd y Tabernacl, Lôn Elder, Pen-y-bont ar Ogwr
**Dathliad Iolo Morgannwg 200 - Iolo Morgannwg ddoe a heddiw. Arddangosfa Hanes Lleol** i ddathlu Daucanmlwyddiant Iolo Morgannwg a'i Etifeddiaeth: y Genedl - Heddwch - Masnach Deg - Yr Orsedd - Llyfrgelloedd - Amaethyddiaeth - Crefftau - Barddoniaeth - Prifysgolion - Dysgu Cymraeg - Owain Glyndŵr. Sgyrsiau gan Gareth Thomas, awdur Myfi Iolo ac eraill. Lluniaeth. Siop Sionc Cant a Mil, Siop Llyfrau Cymraeg.

Dydd Mawrth, 29 Medi 2-00 Llyfrgell Abercynffig
**Ffrwydrad Parc Slip,** Mike Clubb
Bydd Mike Clubb yn trafod y ffrwydrad tanddaearol trychinebus ar 26 Awst 1892 yng Nglofa Parc Slip yn Nhondu, ac yn ystyried yr effaith gymdeithasol ar y gymuned leol.